

Cyngor Cymuned **Llandybie** Community Council

Adroddiad Blynyddol

2021/2022

Cadeirydd : Y Cynghorydd I.RH. Llewelyn

Cyflwyniad y Cadeirydd

Mae wedi bod yn ffrainc gwasanaethu fel Cadeirydd Cyngor Cymuned Llandybïe yn ystod 2021/2022. 'Rydym wedi parhau i wynebu anawsterau mawr, oherwydd bod effaith Covid wedi dal i chwarae rhan allweddol ym mywydau pawb yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Mae'r ffaith bod y cyfyngiadau wedi'u llacio yn ddiweddar yn helpu pawb i ail-gydio mewn ymdeimlad o normalrwydd, a gallaf ond obeithio y byddwn yn gweld gwelliannau pellach dros yr ychydig fisoedd nesaf.

Yn ystod y fwyddyn mae'r Cyngor, ar y cyfan, wedi cynnal cyfarfodydd rhithiol, ond fe ddychwelwyd i gynnal cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb yn yr hydref, cyn bod rhaid mynd ati unwaith eto i ddefnyddio dull rhithiol. O hyn ymlaen, bydd y Cyngor yn cynnal cyfarfodydd hybrid, a bydd Cynghorwyr ac aelodau'r cyhoedd yn gallu mynychu'r cyfarfodydd naill ai mewn person neu arlein. Credaf bod hyn yn welliant positif, cam a fydd yn darparu gwell mynediad i bawb.

Mae gwaith y Cyngor wedi mynd yn ei flaen yn ystod yr argyfwng a dw i'n falch iawn i ddweud, yn dilyn ymgynghoriad lleol ym Mhenygroes gyda'r heddlu a'r cyhoedd, bod system Teledu Cylch Cyfyng newydd wedi'i gosod ym mharc Penygroes.

Mae'r cytundeb lefel gwasanaeth gyda Chyngor Sir Caerfyrddin i dorri'r glaswellt, casglu sbwriel, chwistrellu chwynladdwr a thocio'r perthi yn y parciau wedi sicrhau bod ein 11 parc yn cael eu cynnal a chadw a'u glanhau i safon uchel iawn. Serch hynny, mae'r Cyngor yn gwbl ymwybodol bod angen gwella'r cyfleusterau, ac mae'n bleser dweud ei fod wedi cytuno i wella'r parc bach ym Monllwyn yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Cynhelir arolygon blynyddol o'r coed, ac mae unrhyw broblemau yn cael eu datrys yn ddi-oed, gan gadw mewn golwg diogelwch y cyhoedd.

Mae'r cyfleusterau cyhoeddus yn Llandybïe a Phenygroes wedi parhau ar agor.

Cyflwyniad y Cadeirydd

Mae'r gwaith o gynnal a chadw'r meinciau ochr y ffordd ac yn y parciau ledled yr ardal wedi'i gwblhau, ac mae meinciau newydd wedi'u harchebu i'w gosod yn lle llawer o'r rhai a oedd mewn cyflwr gwael. Bydd rhaglen cynnal a chadw flynyddol yn parhau, er mwyn sicrhau bod ein stoc mewn cyflwr da.

Mae mudiadau lleol wedi parhau i elwa ar y grantiau a roddir gan y cyngor, a mawr yw fy nyled i waith y mudiadau hyn, sydd wedi gweithio mor galed yn ystod y pandemig i sicrhau bod gan ein cymunedau lleol glybiau a mudiadau y gallant fynychu, wrth i'r rhain ddechrau ail-agor eu drysau. Yr wyf am estyn fy niolch i'r rhai hynny sy'n parhau i weithio ar draws y gymuned ac yn ein cymunedau, gan gynnwys y rhai sy'n helpu pobl sy'n wynebu heriau yn eu bywydau. Diolch hefyd i'r gwirfoddolwyr yn ein heglwysi a'n capeli sy'n dal i gynnal a chadw'r claddfeydd, gyda chymorth arian a roddir gan y Cyngor.

Mae'r Llwybrau Troed a'r Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn y gymuned yn cael eu cynnal a chadw, gan fod y glaswellt a'r perthi ar llawer o'r llwybrau troed yn cael eu torri'n reolaidd. Mae wedi bod yn braf gweld bod llawer mwy o bobl wedi defnyddio'n llwybrau troed lleol dros y ddwy flynedd ddiwethaf a, tra bod y cyfrifoldeb terfynol am gynnal a chadw'r rhain yn nwylo Cyngor Sir Caerfyrddin, rydym ni, fel cyngor cymuned, wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb o lunio rhaglen cynnal a chadw flynyddol ar gyfer rhai o'r llwybrau troed.

Erbyn hyn mae'n ddyletswydd ar y Cyngor Cymuned i gyhoeddi cynllun blynyddol, yn cynnwys cynllun gweithredu a fydd yn ategu at y gwaith ar bob lefel. Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) adran 40(1) yn mynnu bod y fath gynllun ar gael, cynllun sy'n cysylltu'n uniongyrchol gydag amcanion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin a'r Nodau Llesiant Cenedlaethol.

Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth, a hoffwn eich sicrhau y bydd y Cyngorwyr yn gwneud popeth yn eu gallu i greu economi lleol llwyddiannus a bywiog, er mwyn sicrhau dyfodol i ni ac i'n plant.

Diolch yn fawr

I Rh Llewelyn

Y dull o weithredu a ffefrir gennym

Ystyried yr amcanion llesiant ar bob achlysur

Defnyddio ein gwybodaeth leol er budd y gymuned

Cynnwys bobl lleol wrth wneud penderfyniadau, lle bo hynny'n briodol

Cydweithio gyda mudiadau lleol eraill

Cyhoeddi ein cynllun blynyddol ar y wefan

Incwm a Gwariant

Mae Cyngor Cymuned Llandybie yn cael ei ariannu yn bennaf o'r praesept a delir gan drethdalwyr lleol. Yn 2020 /2021 roedd cyfanswm yr incwm yn £184,300 (heb TAW).

- Yn 2021/2022 disgwylir incwm o £203644.

Yn 2021 /2022 bydd yr ardoll a godir ar eiddo ym Mand D yn £40.34, sef gostyngiad o £40.96 – y swm isaf o gymharu a Chynghorau mawr eraill cyfagos

- Nid yw'r praesept wedi codi yn y 4 blynedd ddiwethaf

- Y gwariant yn 2020 /2021 oedd £205,362 (heb TAW)

1. Parciau ac Ardaloedd Chwarae £62,856
2. Grantiau £ 18,931
3. Gweinyddu/ Cyflogau £ 76,380
4. Datblygu Cymunedol £11,099
5. Llwybrau Troed / Goleuo / Cyfleusterau Cyhoeddus £ 36,096

Beth 'rydym yn ei wneud?

Cynnal a chadw a gwella'r parciau a'r ardaloedd chwarae – rhai ohonynt ym mherchnogaeth y Cyngor ac eraill yn cael eu cynnal a chadw ar ran cymdeithasau pentref lleol.

Cynnal a chadw'r rhwydwaith o lwybrau troed cyhoeddus lleol.

Cefnogi mudiadau, clybiau a digwyddiadau lleol gyda chefnogaeth ar ffurf grant.

Cynnal a chadw ac adnewyddu seddau ar ochr y ffordd

Cefnogi cyfleusterau cymunedol drwy roi grantiau blynyddol i'r neuadd pentref.

Helpu meithrin grwpiau cymunedol lleol sy'n helpu diwallu anghenion lleol.

Annog gwirfoddoli yn lleol.

Cynghorwyr

Ward Llandybie

Y Cynghorydd Anthony Davies – Cadeirydd

Y Cynghorydd Andrew Evans

Y Cynghorydd David Hopkins

Y Cynghorydd Anthony Jones

Y Cynghorydd Dai Nicholas

Y Cynghorydd Emyr Nicholas

Y Cynghorydd Bryan Rees

Ward Heol Ddu

Y Cynghorydd Ian Llewelyn – Is-Gadeirydd

Ward Penygroes

- Y Cynghorydd Mrs Janet Collins
- Y Cynghorydd Mrs Llinos Hindley
- Y Cynghorydd Mrs Llywela Latham
- Y Cynghorydd Peter Roberts
- Y Cynghorydd Mrs Sian Thomas

Ward Saron

- Y Cynghorydd Mrs Karen Davies
- Y Cynghorydd Mrs Anita Evans
- Y Cynghorydd Carl Harris
- Y Cynghorydd Mrs Carey Thomas
- Cynghorydd Nigel Evans (rhan o'r flwydd yn unig)
- Cynghorydd Steven J Roberts (rhan o'r flwyddyn yn unig)

Staff

Clerc y Cyngor a Swyddog Cyllid Cyfrifol

- Stuart Griffith

Cynorthwy-ydd Gweinyddol

- Mrs Rhian Thomas

Poblogaeth

(yn seiliedig ar y nifer o etholwyr yn y ward)

• Llandybie/ Heol Ddu	3316
• Penygroes	2361
• Saron	3415
• CYFANSWM	9092

Amcanion y Cyngor

- Ymgynghori gyda'n cymunedau
- Annog cynaliadwyedd amgylcheddol ac helpu i arafu newid hinsawdd
- Cadw ac hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru
- Cefnogi ein mudiadau cymunedol lleol
- Gwella'n parciau a'n hardaloedd chwarae
- Creu, cynnal a gwella cyfleusterau cymunedol
- Cyfrannu at llesiant yr holl breswylwyr drwy gydymffurfio â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Gweledigaeth y Cyngor

Gwella ansawdd bywyd pawb a chynnig cyfleoedd cyfartal i bawb drwy greu cymunedau deniadol, diogel, hyfyw, iachus, cynhwysol sy'n amgylcheddol gynaliadwy.

Ymwreiddio'r Pum Dull o Weithio

Yn yr hirdymor

- cydbwyso'r anghenion tymor byr i ddiogelu'r hirdymor

Atal

- problemau rhag codi neu waethygu

- Mae'r Cyngor wedi clustnodi £150 o filoedd ar gyfer atgyweirio ac amnewid offer yn y parciau
 - Mae wedi'i ymrwymo i roi cefnogaeth ariannol craidd i'r holl neuaddau pentref lleol
-
- Gwella ansawdd yr offer yn y meysydd chwarae ers bod yr Asedau wedi'u Trosglwyddo o'r Cyngor Sir
 - Cynnal arolygiadau cyson o'r meysydd chwarae
 - Cynnal a chadw'r offer yn gyson
 - Cynnal a chadw'r llwybrau troed lleol gan osod rhaglen flynyddol torri glaswellt yn ei lle
 - Cynnal a chadw ac adnewyddu seddau ar ochr y ffordd
 - Parhau i ymgysylltu gyda'r Cynghorwyr Sir ynghylch materion lleol

Ymwreiddio'r Pum Dull o Weithio

- Integreiddio

- yr effaith ar amcanion cyrff eraill

- Cydweithio

- gweithio gyda'n gilydd

- 'Rydym yn ymwybodol o'r nodau llesiant ac yn asesu effaith prosiectau yn eu herbyn

- Mae'r Clerc yn mynychu, yn reolaidd, cyfarfodydd Clercod eraill Gorllewin Cymru

- 'Rydym yn cydweithio gyda mudiadau lleol eraill er mwyn cwrdd â'r amcanion llesiant

- 'Rydym yn ymateb yn weithredol i ymgynghoriadau

- 'Rydym yn cydweithio gydag amrywiol gyrff chwaraeon

- 'Rydym yn cydweithio gyda grwpiau cymunedol lleol

Ymwreiddio'r Pum Dull o Weithio

- Cyfranogiad – pobl eraill sydd â diddordeb, gyda'r amrywiaeth i wireddu nodau llesiant
- 'Rydym yn gwerthfawrogi'r pwysigrwydd o gynnwys ystod eang o bobl sydd â diddordeb mewn gwireddu'r nodau llesiant
- Cynhelir noson grantiau bob yn ail flwyddyn fel digwyddiad rhwydweithio a chydabod ar y cyd, a roddir cyfle i fudiadau lleol gynyddu eu proffil

Pa ddull mae'r Cyngor wedi'i ddefnyddio i ymwreiddio'r amcanion llesiant cenedlaethol i'w gynlluniau?

Arferion Iachus – bod gan bobl ffordd dda o fyw a'u bod nhw'n gwneud dewisiadau iachus ynghylch eu bywydau a'r amgylchedd.

Ymyrraeth Gynnar – bod pobl yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn.

Cysylltiadau Cadarn – oddiwrth y bobl, lleoedd a mudiadau sydd yn gallu addasu i newid

Pobl Ffyniannus – gwneud y gorau o'r cyfleoedd sydd ar gael ar draws yr holl feysydd.

- Mae'r Cyngor yn ymwreiddio'r rhain i'w ffordd o weithio.
- Bydd amcanion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu hadlewyrchu yn llawn mewn unrhyw Gynlluniau Datblygu Cymunedol.
- 'Rydym eisoes wedi gwranddo ar bryderon ein cymunedau ynghylch diogelwch ar y ffordd, amnewid ardaloedd chwarae a gwranddo ar yr holl feysydd o bryder eraill.

Pa ddull mae'r Cyngor wedi'i ddefnyddio i ymwreiddio'r amcanion llesiant cenedlaethol i'w gynlluniau?

- Cymru Lewyrchus
 - Cymru Gydnerth
 - Cymru Iachach
 - Cymru sy'n fwy cyfartal
 - Cymru o Gymunedau Cydlynus
 - Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Mae'r Cyngor yn ymwreiddio'r rhain i'w ddull o weithio.
 - Bydd y nodau cenedlaethol yn cael eu hadlewyrchu yn llawn mewn unrhyw Gynlluniau Cymunedol, neu ffrydiau gwaith / prosiectau (nawr ac yn y dyfodol).

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Amcan Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin

Arferion Iachus

- Annog chwarae yn yr awyr agored
- Annog Chwaraeon

Cynnydd

- Mae'r Cyngor wedi buddsoddi'n helaeth mewn offer chwarae ers iddo gymryd cyfrifoldeb am yr manau chwarae ar ôl Trosglwyddo Asedau.
- Mae'r Cyngor yn monitro diogelwch yn y manau chwarae, yn cynnal arolygon cyson i adnabod y gwaith sydd ei angen ac yn monitro cynnydd o ran y fath waith.
- Mae'n helpu cefnogi'r Ardaloedd Gemau Aml-Ddefnydd (MUGA) ac yn cefnogi clybiau chwaraeon lleol gyda chymorth grant i'r adrannau iau, a gyda'r gwaith o gynnal a chadw'r tiroedd.
- Mae'r cyrtiau tenis a'r grîn bowlio yn Llandybie yn cael eu cynnal i safon uchel iawn.
- Mae cymorth grant wedi'i rhoi i Glwb Pêl-Droed Iau Saron, i Adran Iau Clwb Rygbi Penybanc ac i Glwb Rygbi Penygroes yn benodol i wella cyflwr eu caeau chwarae.

Amcan Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin

- Ymyrraeth Gynnar
- Gwefan

- Ardaloedd Chwarae

- Cymorth grant i fudiadau lleol
- Cefnogaeth i fudiadau sy'n cefnogi plant ac ieuenctid

Cynnydd

- Gwefan gwbl ddwyieithog wedi cael ei huwchraddio yn ystod 2020 fel ei bod yn hygyrch i bawb. Mae newyddion y Cyngor a'r gymuned yn cael ei hychwanegu ati.

- Gweler uchod – annog chwarae a dysgu yn yr awyr agored o oedran ifanc.

- Ceisiadau grant yn cael eu hystyried ddwywaith y flwyddyn, a gwahoddir y mudiadau llwyddiannus i noson wobrwyo.

Amcan Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin

Cysylltiadau Cadarn

- Treftadaeth

Cynnydd

- Mae'r Cyngor yn ystyried treftadaeth leol i fod yn ffordd ddefnyddiol o helpu gwneud cysylltiadau. Mae byrddau gwybodaeth yn Llandybie, Penygroes a Phantllyn.
- Wagen lo Pencae'r Eithin – atgof o'r diwydiant glo a oedd mor bwysig yn lleol
- Cloc Cilyrychen – wedi'i ddychwelwyd i Landybie a'i osod mewn man canolog yn y pentref fel atgof o hanes diwydiannol y Cwmnïau Calch yng Nghilyrychen.
- Cefnogi'r gwaith o gynnal a chadw llwybr troed Calon Cymru.

Amcan Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin

Cysylltiadau Cadarn

- Digwyddiadau Cymunedol
- Cefnogi Cyfleusterau Cymunedol
- Gwefan

Cynnydd

- Cefnogi'r Goleuadau Nadolig yn Eglwys y Plwyf, Llandybie.
- Cymorth grant blynyddol i bob neuadd bentref leol.
- Cynnal a chadw'r grîn bowlio, cyrtiau tenis a phafiliwn Llandybie a chae pêldroed ac ystafelloedd newid Clwb Pêldroed Iau Saron.
- Mae'r cyfleusterau cyhoeddus yn Llandybie ac ym Mhenygroes ar agor yn feunyddiol.
- Mae gwefan hygyrch newydd wedi'i datblygu, ac yn weithredol.

Amcan Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin

Pobl a Lleoedd Ffyniannus

- Ymgynghori Cymunedol

Cynnydd

- Gwella'r adnoddau yn yr ardaloedd chwarae
- System Teledu Cylch Cyfyng ym mharc Penygroes ar ôl ymgynghori â'r heddlu ac aelodau o'r cyhoedd.